# Cynllun Gweithredu Cymdogaeth



# LLANILLTUD FAWR

## Gorllewin y Fro

Vale Homes
Safe in our hands

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

# CYNLLUN GWEITHREDU CYMDOGAETH

## I ardal Llanilltud Fawr

**Dyma'r cynllun gweithredu cymdogaeth i Lanilltud Fawr. Mae Llanilltud Fawr yn dref fawr yng ngorllewin y Fro, a elwir yn lleol yn "Llanilltud hen a newydd". Yn cael ei gwasanaethu'n dda gan reilffyrdd a ffyrdd, mae'r dref yn gyffredinol yn cael ei hystyried yn gyfoethog ac yn aml mae'n ymddangos mewn rhestrau o'r lleoedd gorau i fyw yng Nghymru. Fodd bynnag, mae cyferbyniadau a phocedi o amddifadedd, yn enwedig ar draws y ddwy brif ystad.**

Mae dwy ysgol gynradd cyfrwng Saesneg; Ysgol Y Ddraig a St Illtyd, ac maent yn bwydo i mewn i Ysgol Uwchradd Llanilltud Fawr. Hefyd ceir ysgol gynradd Gymraeg, Ysgol Gymraeg Dewi Sant.


Mae amrywiaeth o siopau, tafarndai a bwytai yng nghanol y dref, ac un siop leol yn ardal Llanilltud 'newydd'.


Mae'r cynllun tai gwarchod sy'n eiddo i'r Cyngor, Crawshay Court, wedi'i leoli yn yr ardal hon ac mae'n gartref i breswylwyr 55+ oed. Mae ganddo ardal gymunedol sy'n hwyluso amrywiaeth o grwpiau a gweithgareddau ar gyfer y preswylwyr a'r gymuned leol.

# Ffeil ffeithiau cymdogaeth

- 30 Mehefin 2017- Mae 3,023 o bobl yn byw yn Llanilltud Fawr.
- Mae gan yr ardal ddosbarthiad trefol/ gwledig o: Ddinas a thref ddinesig.
- Y Bwrdd Iechyd Lleol yw Prifysgol Caerdydd a'r Fro.
- Yr Ardal Heddlu i Ddinas Powys yw Heddlu De Cymru.
- Yr Awdurdod Tân ac Achub i Lanilltud Fawr yw Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

Mae 312 o eiddo sy'n perthyn i'r Cyngor yn ardal Llanilltud Fawr. Mae 234 o dai, 4 fflat deulawr, 17 o fflatiau, 5 o fflatiau i bobl hŷn, 29 byngalo i bobl hŷn a chynllun tai gwarchod gyda 23 o fflatiau. Mae'r eiddo o fath adeiladu traddodiadol ac fe'u hadeiladwyd yn bennaf tua 1958, tra bod yr ystad newydd wedi'i hadeiladu o fath nad yw'n draddodiadol, a chafodd ei hadeiladu yn hwyr yn yr 1960au.


CRAWSHAY DRIVE
ANDREWS CT
BEDFORD RISE
School
LLANMAES ROAD
FOUR ACRE
FAIRFIELD
MONMOUTH WAY


Trebefered /
Boverton

# Beth yw Cynllun Gweithredu Cymdogaeth?





# Beth yw ei nodau?

**Mae Cynllun Cymdogaeth Llanilltud Fawr yn nodi ystod o flaenoriaethau lleol penodol sy'n bwysig i bobl sy'n byw ar yr ystad.**

Mae'r Cynllun yn ystyried ystod eang o wybodaeth gan gynnwys canlyniadau ymgynghori â phreswylwyr, canlyniadau'r arolwg boddhad tenantiaid ar raddfa fawr, data economaidd-gymdeithasol gan gynnwys iechyd, cyflogaeth a thlodi ynghyd â themâu cylchol a nodwyd gan staff. Gyda'i gilydd, mae'r wybodaeth hon yn ffurfio'r blaenoriaethau sy'n effeithio ar fywydau pobl, gan gynnwys materion amgylcheddol, hyrwyddo cymunedau gweithredol ac ymdrin â throsedd a diogelwch.

Nodir nifer o gamau sy'n ymdrin â'r materion blaenoriaeth ar yr ystad, a bydd y rhain yn cael eu cyflawni dros yr ychydig flynyddoedd nesaf er mwyn gwella'r gymdogaeth a gwneud gwahaniaeth i fywydau tenantiaid.

Mewn arolwg tenantiaid diweddar a gwblhawyd yn yr ardal, dim ond 14% o denantiaid a nododd eu bod yn adnabod Tîm Cymdogaeth yr ardal, sy'n siomedig. Felly bydd y cynllun cymdogaeth yn nodi sut y bydd y tîm yn cynyddu ei bresenoldeb yn yr ardal.

# Gwybodaeth allweddol i'r gymuned

| | |
|---|---|
| Diogelwch cymunedol | Roedd 46.3% o denantiaid yn fodlon â'r trefniadau ar gyfer delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol (cyfartaledd y Fro yw 58%).<br>Nid oedd cymdogion swnllyd yn bryder i nifer, gyda 66% o'r tenantiaid ar yr ystad yn dweud nad oedd hon yn broblem (o'i gymharu â 67% ar draws y Fro).<br>Teimlai 32% o denantiaid fod defnyddio cyffuriau yn yr ardal yn broblem sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd y Fro, sef 26%.<br>Nododd 57% o'r tenantiaid eu bod yn teimlo'n ddiogel yn byw yn yr ardal.<br>"Mae ysbryd cymunedol da yma" |
| Cyswllt â chwsmeriaid | Dywedodd 79% o'r preswylwyr fod staff yn barod i helpu a theimlai 80% bod staff yn gallu delio â'u hymholiad yn gyflym ac yn effeithiol<br>Roedd 77% o denantiaid o'r farn ei bod hi'n hawdd cysylltu â'r person iawn (cyfartaledd y Fro yw 65%). |
| Galw am gartrefi | Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi cael 24 eiddo ar gael i'w hailosod yn yr ardal. Mae galw da am eiddo yn yr ardal gyda chyfartaledd o 30 ymgeisydd yn cynnig ar bob eiddo.<br>"Mae'n ardal ddiogel a thawel i fyw."<br>"Cymdogion da ac ysbryd cymunedol" |
| Mynediad at wasanaethau | Mae gan bobl yn y gymdogaeth fynediad da at siopau a gwasanaethau. Mae gwasanaethau bws a thrên da sy'n golygu y gall tenantiaid fynd i'r Barri neu Gaerdydd ac ymweld ag archfarchnadoedd yn hawdd.<br>Mae 3 ysgol gynradd ac un ysgol uwchradd yn Llanilltud Fawr ac mae digon o le ynddynt i blant sy'n byw yn y dalgylch.<br>Yn ystod arolwg diweddar o denantiaid, nododd y tenantiaid yr hoffent weld cynnydd mewn gwasanaethau lleol ac mae hwn yn faes blaenoriaeth iddynt wrth symud ymlaen. Ein nod yw gweithio gyda thenantiaid i nodi lle mae diffyg gwasanaethau ac archwilio a ellir cynyddu'r rhain. |
| Ôl-ddyledion rhent | Dywed 86% o denantiaid yr ardal fod eu rhent yn cynrychioli gwerth am arian.<br>Mae 28% o denantiaid mewn ôl-ddyledion rhent sy'n is na'r cyfartaledd ar draws y Fro o 31%. |
| Atgyweirio | Roedd 77% o denantiaid yr ystad yn fodlon â'r gwasanaeth atgyweirio ac roedd 76% yn teimlo bod atgyweiriadau'n cael eu gwneud yn gyflym.<br>Nododd tenantiaid sy'n byw yn yr ardal hon mai cael cwblhau atgyweiriadau mewn modd amserol oedd eu blaenoriaeth uchaf o ran gwasanaethau a ddarperir gan Gartrefi'r Fro. |
| Cyflogaeth | Mae gan y gymdogaeth lefelau uwch o gyflogaeth o'i chymharu â chymdogaethau eraill yn y Fro. Mae 2.3% o bobl o oedran gweithio yn hawlio budd-daliadau allan o waith sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd y Fro, sef 1.1%. Mae tenantiaid wedi cynghori yr hoffent weld mwy o wasanaethau cymorth cyflogaeth yn yr ardal i helpu pobl i gael mynediad at gyflogaeth. |

## Gwybodaeth allweddol i'r gymuned (parhad)

| | |
|---|---|
| Incwm yr aelwyd | Mae gan y gymdogaeth rai problemau gyda lefelau incwm teulu o'i chymharu â chymdogaethau eraill yn y Fro. Dengys hyn y gallai rhai teuluoedd ddioddef effeithiau amddifadedd a chael problem cael dau ben llinyn ynghyd.<br>Pan ofynnwyd iddynt yn ddiweddar, dim ond 29% o denantiaid sy'n byw yn yr ardal a rannodd eu bod wedi clywed am Gredyd Cynhwysol a bod ganddynt rywfaint o ddealltwriaeth o sut y bydd y newidiadau yn effeithio arnynt. |
| Trosiant eiddo | Daeth 24 eiddo yn wag y llynedd (8% o'r stoc dai yn yr ardal). |
| Tenantiaid gweithgar | Mae gennym ymgysylltiad isel â thenantiaid yn ardal Llanilltud a dim ond 14% o denantiaid a rannodd eu bod yn adnabod Tîm Cymdogaeth yr ardal.<br>Mae gennym fwrdd preswylwyr gweithredol yn Crawshay Court. Mynychir hwn yn bennaf gan y preswylwyr sy'n byw o fewn y cynllun gwarchod ac mae'n tueddu i ganolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â phobl hŷn.<br>Rydym yn ymwybodol bod rhai grwpiau cymunedol yn gweithredu yn yr ardal y mae ein tenantiaid yn ymgysylltu â nhw; fodd bynnag dim ond cysylltiadau cyfyngedig sydd gennym â'r rhain.<br>Rydym yn ymwybodol mai un broblem yn yr ardal yw teuluoedd yn cael eu hailgartrefu yn yr ardal ac yna eisiau dychwelyd i ardaloedd eraill fel y Barri, sy'n eu hatal rhag magu gwreiddiau. |
| Trosedd a niwsans | Ceir cyfraddau troseddu is ar gyfer byrgleriaeth, troseddau treisgar ac ymddygiad gwrthgymdeithasol |
| Iechyd a llesiant | Mae iechyd 21% o breswylwyr yn cyfyngu ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd, ac mae hyn ychydig yn uwch na chyfartaledd y Fro. Mae gan y gymdogaeth rai problemau gyda lefelau iechyd ac anabledd pobl o'i chymharu â chymdogaethau tebyg yn y Fro. Gallai hyn ddangos y gallai fod gan fwy o bobl nag arfer broblemau symudedd o ryw fath neu'i gilydd, eu bod angen rhywfaint o gymorth meddygol tymor hir yn eu cartrefi ac efallai eu bod yn teimlo'n eithaf ynysig. |
| Pobl ifanc | Mae cyfran y bobl ifanc sy'n byw yn Llanilltud (22%) yn uwch na chyfartaledd y Fro a Chymru.<br>Mae tenantiaid wedi tynnu sylw at y ffaith nad oes llawer yn yr ardal i blant a phobl ifanc ei wneud, gyda llawer yn tynnu sylw at hyn fel blaenoriaeth y mae angen rhoi sylw iddi.<br>Ychydig o ddarpariaeth a wneir ar gyfer Pobl Ifanc trwy Glybiau Ieuenctid, grwpiau cymdeithasol. |
| Addysg | Mae lefelau cyrhaeddiad addysgol yn debyg i gyfartaledd y Fro gyda chyfartaledd sgoriau cyrhaeddiad yng nghyfnodau allweddol 2 (89), 3 (108) a 4 (434), o gymharu ag 89, 106 a 492 ar draws y Fro.<br>Mae Llanilltud yn profi cyfraddau absenoldeb disgyblion uwch mewn ysgolion uwchradd, sef 11% o'i gymharu ag 8% ar draws y Fro. |
| Mannau agored | Mae amrywiaeth o fannau agored y gallai'r gymuned eu defnyddio, a nifer o ddarnau llai o fannau gwyrdd neu fannau parcio yn yr ardal. |
| Graddfeydd yr ystad | Graddiad cyffredinol yr ystad yw 3. Ymhlith y materion sy'n codi dro ar ôl tro, ceir tipio anghyfreithlon, sbwriel a gwrychoedd sydd wedi gordyfu sy'n ffinio â llwybrau ar draws yr ardal. |

# Gwybodaeth leol:
## Archwilio eich ystad

Er bod y dangosyddion yn dangos tueddiadau defnyddiol ac yn dangos y ffordd inni i'r cyfeiriad cywir, mae angen mwy o wybodaeth leol arnom i adnabod rhai o'r materion penodol y mae angen inni ymdrin â hwy.

I gasglu'r wybodaeth hon, rydym wedi cynnal archwiliad cymdogaeth, gan holi pobl sy'n byw ac yn gweithio yma i nodi beth yw'r problemau yn eu barn nhw.

| Barn/sylwadau preswylwyr | |
|---|---|
| Mae'r ardal gyfan yn elwa o gymunedau sefydledig a throsiant isel o eiddo. | TMae amlder pobl yn symud i mewn ac allan o'r gymdogaeth yn isel ac mae'n hawdd gosod y mwyafrif o eiddo.<br><br>Mae ymddangosiad gwael i'r ardaloedd garej ac ar hyn o bryd mae 30 o garejys yn wag gyda dwy yn "barod i'w gosod". |
| Mae taflu sbwriel yn broblem yng nghyffiniau'r cyrtiau garej, a gyda newidiadau pellach i ailgylchu yn 2019, mae hon yn flaenoriaeth i'r ardal.<br><br>Mae ymddangosiad yr ardal yn gyffredinol dda gyda llawer o fannau gwyrdd. Mae sawl pentref bach sy'n eistedd ochr yn ochr ag ardaloedd mwy fel Llanilltud Fawr.<br><br>Mae pocedi o dipio anghyfreithlon mewn rhai ardaloedd, fel y cyrtiau garej yn Llanilltud Fawr.<br><br>Mae sawl coeden yn y gymdogaeth mewn cyflwr gwael ac mae darnau o dir a ddefnyddir eisoes y gellid eu troi at well defnydd, fel y tir yn Stradling Place. | Mae parcio yn broblem mewn rhai rhannau o'r gymdogaeth yn bennaf oherwydd lled rhai ffyrdd a'r diffyg lle sydd ar gael. |
| Mae ymddangosiad cyffredinol eiddo yn yr ardal yn dda, gyda rhai o'r pentrefi cyfagos yn lleoliadau delfrydol. | Hefyd, ceir rhai problemau gyda chyflwr gerddi a ffensys mewn rhai ardaloedd oherwydd cynnal a chadw a ffensys gwael. |
| Cwblhawyd y gwaith WHQS ar yr holl eiddo yn yr ardal ac maent mewn cyflwr da iawn. | Nid yw pobl yn ein hadnabod yn ddigon da/ dim cyswllt cryf.<br><br>Angen gwybod mwy am ein tenantiaid/ demograffeg. |
| Mae'r Tîm Rheoli Cymdogaeth yn mynychu cyfarfodydd Grŵp Preswylwyr Llanilltud Fawr yn fisol a gynhelir yn Crawshay Court. Yn ddiweddar maent wedi mynychu cyfarfod y Cyngor Tref i greu cysylltiadau. | |

**Fel rhan o'r archwiliad cymdogaeth, gofynnwyd i denantiaid nodi'r gwasanaethau pwysicaf iddynt; y tri gwasanaeth uchaf yn yr ardal yw:**

- Sicrhau bod materion atgyweirio a chynnal a chadw yn cael eu datrys yn amserol
- Bod problemau gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael eu rheoli'n effeithiol
- Cyfathrebu'n effeithiol â thenantiaid, gwrando ar awgrymiadau a gweithredu ar y rhain.

**Pan ofynnwyd i'r tenantiaid beth oeddent yn ei deimlo ddylai fod y blaenoriaethau ar gyfer gwella, amlygwyd y canlynol:**

- Ymdrin â sbwriel a thipio anghyfreithlon yn yr ardal
- Gwella gwasanaethau lleol
- Gwella diogelwch cymunedol



# Camau Gweithredu

| Beth? | Pam? | Pryd? |
|---|---|---|
| Materion amgylcheddol | | |
| Nodi opsiynau i leihau problemau storio sbwriel a'r effaith ar ymddangosiad y gymdogaeth. | Gwella ymddangosiad y gymdogaeth. | O fewn 6 mis |
| Ymgynghori â thenantiaid lleol i ddatblygu cynllun adfywio ystadau i wella diogelwch, gan gynnwys goleuadau, teledu cylch cyfyng posib, ffensio ayb. | Gwella diogelwch cymunedol. | O fewn 6 mis |
| Gweithio gyda phartneriaid a'r gymuned leol i gynyddu'r ddarpariaeth o finiau sbwriel mewn lleoedd cymunedol a chasglu sbwriel i fynd i'r afael â materion parhaus gyda sbwriel. | Gwella ymddangosiad cyffredinol y gymdogaeth a gwella'r amgylchedd lleol.<br>Lleihau'r achosion o daflu sbwriel achlysurol yn y gymdogaeth a lleihau lefel baeddu cŵn mewn ardaloedd cyffredin. | O fewn 12 mis |
| Gweithio mewn partneriaeth â landlordiaid preifat i wella gerddi tai nad ydynt yn rhai awdurdod lleol, sy'n cael effaith negyddol. | Gwella ymddangosiad cyffredinol y gymdogaeth.<br>Adeiladu cymunedau cryfach. | O fewn 12 mis |
| Ystyried amgáu'r gerddi blaen agored y tu allan i fflatiau i leihau crynhoad sbwriel. | Gwella ymddangosiad cyffredinol y gymdogaeth.<br>Mynd i'r afael â phroblemau gyda sbwriel yn yr ardal a chreu storfa biniau. | O fewn 12 mis |

## Camau gweithredu (parhad)

| Beth? | Pam? | Pryd? |
|---|---|---|
| Targedu gerddi sydd wedi gordyfu mewn cartrefi tenantiaid, gan gynnwys gerddi cymunedol. | Gwella ymddangosiad cyffredinol y gymdogaeth.<br>Gwella diogelwch cymunedol. | O fewn 6 mis |
| Datblygu rhaglen wella ar gyfer y safleoedd garejys i ddod â'r lle yn ôl i ddefnydd. | Gwella ymddangosiad cyffredinol y gymdogaeth.<br>Datblygu mannau gwyrdd a gwella'r amgylchedd.<br>Gwella trefniadau parcio lleol. | O fewn 12 mis |
| Cynnal adolygiad o'r ddarpariaeth cyfleusterau chwarae lleol mewn ymgynghoriad â phreswylwyr. | Datblygu lleoedd chwarae diogel i blant a phobl ifanc<br>Datblygu mannau gwyrdd a gwella'r amgylchedd.<br>Gwella diogelwch cymunedol.<br>Darparu gweithgareddau cymunedol. | O fewn 12 mis |
| **Trosedd a diogelwch** | | |
| Cynyddu'r wyliadwriaeth ffisegol mewn mannau problemus ymddygiad gwrthgymdeithasol (YGG) gan weithio mewn partneriaeth â'r Heddlu a Bro Ddiogelach. | Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.<br>Gwella diogelwch cymunedol.<br>Gwella ansawdd bywyd cyffredinol pobl sy'n byw yn yr ardaloedd hyn.<br>Adeiladu cymunedau diogel a chydlynus. | O fewn 12 mis |
| Gweithio gyda'r Heddlu a Bro Ddiogelach ar wella diogelwch a chynllun plismona mwy cyffredinol sy'n targedu defnyddio cyffuriau ac alcohol, troseddau cerbydau a throsedd yn erbyn grwpiau agored i niwed. | Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.<br>Gwella diogelwch cymunedol.<br>Gwella ansawdd bywyd cyffredinol pobl sy'n byw yn yr ardaloedd hyn.<br>Adeiladu cymunedau diogel a chydlynus. | O fewn 12 mis |
| Sefydlu gweithgareddau Gwarchod Cymdogaeth i gynyddu lefel gwyliadwriaeth mewn cymdogaeth ac felly cynyddu'r teimlad o ddiogelwch a grymuso yn erbyn trosedd, gan gynnwys nodi tenantiaid bregus sydd wedi neu a allai fod wedi dioddef trosedd | Lleihau lefelau fandaliaeth a chynyddu teimladau o ddiogelwch i breswylwyr sy'n teimlo'n agored i droseddu. Bydd datblygu strategaeth atal troseddau tymor hir yn sicrhau dull plismona cyson. | O fewn 3 blynedd |

# Camau gweithredu (parhad)

| Beth? | Pam? | Pryd? |
|---|---|---|
| Gweithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Ieuenctid a'r Tîm Buddsoddi Cymunedol i ddatblygu gweithgareddau dargyfeiriol gyda phobl ifanc trwy weithgareddau allgymorth e.e. Pêl-droed, Clwb Beicio ayb. | Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gwella diogelwch cymunedol. Adeiladu cymunedau diogel a chydlynus. Darparu gweithgareddau yn y gymuned.<br>Cefnogaeth gyda chyflogaeth a hyfforddiant. | O fewn 12 mis |
| Adeiladu rhwydwaith o hyrwyddwyr tenantiaid a fydd yn gweithredu fel "cymdogion da" i gefnogi pobl sy'n byw yn yr ardal leol ac adrodd am unrhyw bryderon i'r Tîm Cymdogaeth neu PCSO's fel y bo'n briodol. | Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.<br>Gwella diogelwch cymunedol.<br>Adeiladu cymunedau diogel a chydlynus. | O fewn 6 mis |
| **Cymunedau gweithgar** | | |
| Gweithio mewn partneriaeth â'r Tîm Buddsoddi Cymunedol i sefydlu grŵp rhieni ifanc, gan ddod â'r gymuned ynghyd, a chefnogi tenantiaid newydd sy'n symud i'r ardal. | Gwella gwasanaethau lleol.<br>Adeiladu ymgysylltiad cymunedol.<br>Darparu gweithgareddau cymunedol.<br>Cefnogaeth gyda chyflogaeth a hyfforddiant.<br>Adeiladu cymunedau cryf a chydlynus.<br>Gwella iechyd a llesiant. | O fewn 12 mis |
| Gweithio mewn partneriaeth â grwpiau cymunedol, sefydliadau a thenantiaid, datblygu dewislen o weithgareddau ymgysylltu â phobl ifanc yn yr ardal, gan gynnwys sefydlu fforwm tenantiaid ieuenctid ar gyfer yr ardal (gan dargedu pobl ifanc 16 i 25 oed) | Gwella gwasanaethau lleol. Adeiladu ymgysylltiad cymunedol. Darparu gweithgareddau cymunedol.<br>Gwella iechyd a llesiant. Gwella diogelwch cymunedol. | O fewn 2 flynedd |
| Gweithio mewn partneriaeth â grwpiau cymunedol, sefydliadau ac i greu grŵp tenantiaid neu fforwm yn yr ardal yn ychwanegol at y grŵp sy'n cyfarfod yn Crawshay, sy'n tueddu i ganolbwyntio mwy ar bobl hŷn. | Cynyddu ymgysylltiad â thenantiaid lleol. Adeiladu ymgysylltiad cymunedol.<br>Adeiladu cymunedau cryf a chydlynus. | O fewn 6 mis |
| Hyrwyddo Bancio Amser a chynyddu nifer o oriau gwirfoddoli tenantiaid. | Datblygu cysylltiadau cymunedol da.<br>Darparu mwy o weithgareddau cymunedol.<br>Datblygu mannau gwyrdd a gwella'r amgylchedd.<br>Cefnogaeth gyda chyflogaeth a hyfforddiant. | O fewn 6 mis |

# Camau gweithredu (parhad)

| Beth? | Pam? | Pryd? |
|---|---|---|
| Datblygu darpariaeth clwb ieuenctid / gwasanaeth ieuenctid o adeiladau yn yr ardal. | Gwella gwasanaethau lleol. Adeiladu ymgysylltiad cymunedol. Darparu gweithgareddau cymunedol. Gwella iechyd a llesiant. Gwella diogelwch cymunedol. | O fewn 12 mis |
| Adolygu cyfleusterau a gweithgareddau cyfredol i bobl ifanc | Gwella gwasanaethau lleol. Adeiladu ymgysylltiad cymunedol. Darparu gweithgareddau cymunedol. Gwella iechyd a llesiant. Gwella diogelwch cymunedol. | O fewn 6 mis |
| Parhau â'r teithiau cerdded bob 3 mis, gan wahodd y PCSO's lleol a Chynghorwyr Tref - dod i adnabod ein tenantiaid a chynyddu presenoldeb yr heddlu yn yr ardal | Gwella ymgysylltiad â thenantiaid. Adeiladu ymgysylltiad cymunedol Mynd i'r afael ag YGG ac ymdrin â sbwriel neu dipio anghyfreithlon. | Parhaus |
| Cwblhau archwiliad o fannau gwyrdd yn yr ardal y gellir ei ddatblygu i greu lleoedd cymunedol neu wella'r amgylchedd lleol. Mae hwn i'w gwblhau mewn ymgynghoriad â phreswylwyr lleol. | Datblygu mannau gwyrdd a gwella'r amgylchedd. | O fewn 6 mis |
| Creu cardiau cyswllt y Tîm Cymdogaeth, gan gynnwys lluniau a gwybodaeth gyswllt ar gyfer swyddogion. Yna bydd y rhain yn cael eu danfon i holl eiddo Cartrefi'r Fro yn yr ardal. Bydd y rhain hefyd yn cynnwys manylion Teithiau Cerdded Cymdogaeth. | Gwella ymgysylltiad â'r gymuned. Gwella cysylltiadau cymunedol. Adeiladu cymunedau cryf a chydlynus. | O fewn 6 mis |
| Recriwtio nifer o Hyrwyddwyr Cymunedol a llysgenhadon Bancio Amser yn yr ardal i gefnogi gwaith y Tîm Cymdogaeth. | Gwella ymgysylltiad â'r gymuned. Gwella cysylltiadau cymunedol. | O fewn 6 mis |
| Archwilio gweithio digidol a sefydlu canolfan yn yr ardal i alluogi'r tîm i dreulio mwy o amser yn gweithio yn yr ardal. | Gwella ymgysylltiad â'r gymuned. Gwella cysylltiadau cymunedol. | O fewn 12 mis |
| Mynychu Cyfarfodydd y Cyngor Cymuned a fforymau cyfarfodydd lleol eraill i adeiladu cysylltiadau gwaith effeithiol yn yr ardal. | Gwella ymgysylltiad â'r gymuned. | O fewn 6 mis |
| Codi hysbysfyrddau cymunedol yn yr ardal sy'n arddangos gwybodaeth berthnasol, gan gynnwys hyrwyddo gweithgareddau cymunedol. | Gwella ymgysylltiad â'r gymuned. | O fewn 6 mis |
| Cynnal nifer o sesiynau cyngor arian a sesiynau Credyd Cynhwysol yn yr ardal i sicrhau bod gan denantiaid fynediad at gyngor priodol. | Darparu Cyngor Ariannol a gwasanaethau cymorth i denantiaethau. Adeiladu tenantiaethau cynaliadwy. | O fewn 12 mis |

# Sut i gysylltu â ni:


**Dros y ffôn:**

01446 700111

**Drwy e-bost:**

housingmanagementteam@bromorgannwg.gov.uk

@valehomes Cartrefi'r Fro

**Yn ysgrifenedig:**

Depo'r Alps, Quarry Road, Gwenfô CF5 6AA

**Drwy'r we:**

www.bromorgannwg.gov.uk

**Yn bersonol:**

Derbynfa Tai, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn,
Y Barri


8:30 i 5:00 pm o ddydd Llun i ddydd Iau

8:30 i 4:30 pm dydd Gwener

Vale Homes
Safe in our hands

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG